


# Croeso i Cyflymu

Swansea University
Prifysgol Abertawe

Cardiff University
Prifysgol Caerdydd

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru
Life Sciences Hub Wales

Undeb Ewropeaidd
European Union

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

# Croeso i
# Cyflymu

Mae Cyflymu yn gydweithrediad blaengar rhwng prifysgolion Cymru a Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru. Mae’n helpu i droi syniadau arloesol yn gynhyrchion a gwasanaethau newydd i wella iechyd a lles y bobl sy’n byw yng Nghymru.

Mae’r rhaglen Cyflymu yn cynnig arbenigedd ymchwil, datblygu ac arloesi pwrpasol i fentrau er mwyn mireinio a dilysu eu hatebion gofal iechyd a chyflymu eu cyflwyno i’r sector iechyd yng Nghymru er mwyn sicrhau budd economaidd.

## Pwy gaiff gydweithio â Cyflymu?

Rydyn ni'n cydweithio ag arloeswyr i helpu i droi syniadau yn gynhyrchion, yn wasanaethau ac yn brosesau newydd. Rydyn ni eisiau clywed gennych chi os ydych chi'n entrepreneur neu yn gweithio mewn diwydiant, y GIG, y byd academaidd neu'r trydydd sector a'ch bod yn datblygu arloesedd o ran gofal iechyd a fydd o fudd i bobl, yn gwella GIG Cymru ac yn rhoi hwb i economi Cymru.




## Pwy sy'n ymwneud â Cyflymu?

Mae Cyflymu yn bartneriaeth rhwng pedwar sefydliad, pob un yn dod ag arbenigedd unigryw. Gall ein partneriaid eich cynorthwyo i fynd i'r afael ag ystod o heriau o ran ymchwil, datblygu ac arloesi.



- **Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru** – sydd â swyddogaeth goruchwylio strategol. Mae ganddo wybodaeth helaeth am sialensiau ac anghenion gwasanaethau iechyd a gofal yng Nghymru ac mae'n darparu cysylltiadau ag ecosystem gwyddorau bywyd ehangach Cymru.
- **Symbylydd Arloesi Clinigol (CIA) Prifysgol Caerdydd** – wedi'i leoli ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, mae gan CIA nifer o gysylltiadau o fewn yr ysbyty, â meddygon, cleifion ac ymchwilwyr clinigol. Mae'n gallu helpu arloeswyr i gael mynediad i'r adnoddau hyn a gweithio gyda nhw.



- **Prifysgol Caerdydd y Drindod Dewi Sant - Canolfan Arloesi Technolegau Cynorthwyol** – yn meddu ar arbenigedd a phrofiad helaeth o ran dylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr, gwerthuso profiad y defnyddiwr a dadansoddiad o ymddygiad, data 3D a chipio symudiadau, yn ogystal â datblygu prototeipiau mewn ystod o ddeunyddiau.
- **Canolfan Technoleg Iechyd Prifysgol Abertawe** – yn cynnwys galluoedd ymchwil penodol, o fioleg celloedd i nanodechnoleg i wyddor data, a gyda chysylltiadau cryf ar draws Prifysgol Abertawe.

> "Mae datblygu ffyrdd arloesol newydd o atal, trin a gwella salwch a chlefydau yn rhan hanfodol o weledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer dyfodol y GIG yng Nghymru. Bydd rhaglen Cyflymu a chronfa canolfannau arloesi iechyd newydd yn helpu i ddatblygu syniadau newydd ar gyfer cynhyrchion a gwasanaethau iechyd yn gyflymach ar gyfer eu defnyddio yn ein GIG a ledled byd."
>
> **Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

## All Cyflymu ariannu fy mhrosiect?

Nid yw Cyflymu yn cynnig cyllid na grantiau. Yn lle hynny, mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar gynorthwyo ymchwil, datblygu ac arloesedd cydweithredol, gyda chymorth tîm o gydweithwyr arbenigol.


Mae Cyflymu yn cynnig mynediad at yr arbenigedd academaidd, dealltwriaeth drylwyr o ecosystem y gwyddorau bywyd, a chyfleusterau blaengar i helpu i roi cychwyn i syniadau.



## Sut all Cyflymu fy helpu i?

Mae gan ein pedwar sefydliad partner arbenigedd dwfn ac eang i'ch helpu i ddatblygu eich arloesedd. Gallwn eich cynorthwyo yn y ffordd sydd fwyaf addas i chi, ac rydyn ni'n hyblyg gyda'n dulliau. Fe allech chi elwa o'r canlynol:

- **Arbenigedd** – y cyfle i weithio gydag arbenigwyr ym maes ymchwil a datblygu, profiad y defnyddiwr, ymgysylltu clinigol a throsglwyddo technoleg
- **Helpu i ganfod cydweithwyr posibl** – gan gynnwys partneriaid diwydiannol, academaidd neu glinigol
- **Mewnbwn clinigol** – gweithio gyda GIG Cymru i wella eich ymchwil a'ch datblygu
- **Cyngor ac arweiniad** – mynediad at dîm amlddisgyblaethol o arbenigwyr mewn ystod o gylchoedd
- **Mynediad at** – Brifysgolion Cymreig blaenllaw, Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd Prifysgol, cleifion, cyfleusterau, personél, a chysylltiadau ehangach ar draws y sector gwyddorau bywyd
- **Helpu i lywio drwy ecosystem cynnal gwyddorau bywyd**.





## Sut mae gwneud cais am Cyflymu?

I wneud cais am y rhaglen Cyflymu, ac i ganfod rhagor heddiw, cysylltwch â:
www.lshubwales.com/cy/rhaglenni/cyflymu | accelerate@lshubwales.com | 029 2046 7030

Yn cael ei ariannu ar y cyd gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop Swyddfa Gyllid Ewropeaidd Cymru, Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, Prifysgolion, Hwb Gwyddorau Iechyd Cymru, a byrddau iechyd, nod Cyflymu yw creu gwerth economaidd parhaus yng Nghymru.

Swansea University Prifysgol Abertawe | Cardiff University Prifysgol Caerdydd | Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David | Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Life Sciences Hub Wales | Undeb Ewropeaidd European Union, Llywodraeth Cymru Welsh Government, Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop European Regional Development Fund